



**AMODAU TRWYDDEDU  
MANDADOL AR GYFER  
TRWYDDEDAU TRINIAETHAU  
ARBENNIG (YMARFERWYR)**

**MANDATORY LICENCE  
CONDITIONS FOR SPECIAL  
PROCEDURES LICENCES  
(PRACTITIONERS)**

*Rheoliadau Trwyddedau Triniaeth Arbennig (Cymru) 2024*

*Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017*

*The Special Procedure Licences (Wales) Regulations 2024*

*The Public Health (Wales) Act 2017*

	<b>AMODAU TRWYDDEDU MANDADOL: AMODAU CYFFREDINOL ATODLEN 3, RHEOLIAD 7 (3)</b>	<b>MANDATORY LICENSING CONDITIONS: GENERAL CONDITIONS SCHEDULE 3, REGULATION 7 (3)</b>
	<b>PARAGRAFF 1 - CYFFREDINOL</b>	<b>PARAGRAPH 1 - GENERAL</b>
(1)	Ni chaiff deiliad y drwydded ond rhoi triniaeth arbennig y mae wedi ei drwyddedu i'w rhoi yn y fangre neu'r cerbyd a gymeradwywyd a bennir ar ei drwydded (oni bai bod eithriadau'n gymwys).	The licence holder may only perform a special procedure that they are licensed to perform in the approved premises or vehicle specified on their licence (unless exceptions apply).
(2)	Ni chaiff deiliad y drwydded roi'r driniaeth arbennig mewn mangre a gymeradwywyd neu mewn cerbyd a gymeradwywyd, nac mewn unrhyw ran ohoni neu ohono, os oes risg, neu os yw'n debygol y bydd risg, o niwed i iechyd dynol.	The licence holder may not perform the special procedure in, or in any part of, an approved premises or an approved vehicle, if there is, or is likely to be, a risk of harm to human health.
(3)	Ni chaiff deiliad y drwydded ond rhoi'r driniaeth arbennig yn y fath fodd sy'n lleihau'r risg o niwed i iechyd dynol.	The licence holder may only perform the special procedure in such a way that minimises the risk of harm to human health.
(4)	Rhaid i ddeiliad y drwydded gyflawni gweithgareddau mewn cysylltiad â rhoi'r driniaeth arbennig mewn ffordd nad yw'n mynd yn groes i'r dystysgrif gymeradwyo (gan gynnwys yr amodau cymeradwyo mandadol) a ddyroddwyd mewn perthynas â'r fangre neu'r cerbyd a nodir yn y drwydded triniaeth arbennig.	The licence holder must carry out activities in connection with performing the special procedure in a way that does not contradict the approval certificate (including the mandatory approval conditions) issued in relation to the premises or vehicle identified in the special procedure licence.
	<b>PARAGRAFF – MATERION SY'N YMWNEUD Â'R DRWYDDED</b>	<b>PARAGRAPH 2 – MATTERS RELATING TO THE LICENCE</b>
(1)	Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod Rhan 1 neu Ran 2 o'i drwydded triniaeth arbennig yn cael ei harddangos mewn safle sy'n galluogi cleientiaid ac aelodau o'r cyhoedd i'w darllen yn hawdd.	The licence holder must ensure that Part 1 or Part 2 of their special procedure licence is displayed in a position that enables it to be easily read by clients and members of the public
(2)	Rhaid i gopi o'r amodau trwyddedu mandadol cymwys fod ar gael yn rhwydd ar gais gan swyddog awdurdodedig neu gleient.	A copy of the applicable mandatory licensing conditions must be readily available upon request by an authorised officer or client.
(3)	Ni chaniateir addasu'r drwydded triniaeth arbennig mewn unrhyw ffordd a rhaid iddi barhau i fod yn ddarllenadwy.	The special procedure licence must not be altered in any way and must remain legible.
(4)	Mewn achos pan fo'r drwydded triniaeth arbennig wedi mynd ar goll, wedi cael ei dwyn neu wedi cael ei difrodi, rhaid i ddeiliad y drwydded wneud cais, o fewn cyfnod rhesymol, i gael un newydd yn ei lle oddi wrth yr awdurdod lleol sy'n dyroddi.	In the event of the special procedure licence becoming mislaid, stolen or damaged, the licence holder must apply, within a reasonable period, to obtain a replacement from the issuing local authority.
(5)	Os caiff deiliad y drwydded ei euogfarnu o drosedd berthnasol yn ystod cyfnod y drwydded, rhaid i ddeiliad y drwydded hysbysu'r awdurdod lleol sy'n dyroddi ar unwaith am yr euogfarn. Rhaid i'r hysbysiad hwn fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo gynnwys dyddiad yr euogfarn, manylion y drosedd berthnasol, y ddedfryd neu'r gosb a roddwyd (gan gynnwys hyd unrhyw ddedfryd) ac unrhyw wybodaeth arall sy'n rhesymol ofynnol gan yr awdurdod lleol sy'n dyroddi.	If the licence holder is convicted of a relevant offence during the licence period, the licence holder must immediately notify the issuing local authority of the conviction. This notification must be in writing and must include the date of the conviction, details of the relevant offence, sentence or penalty imposed (including the duration of any sentence) and any other information that the issuing local authority may reasonably require.
(6)	Pan ddaw'r drwydded triniaeth arbennig i ben, rhaid dychwelyd y drwydded sydd wedi dod i ben i'r awdurdod lleol sy'n dyroddi yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir gan yr awdurdod hwnnw.	On the expiry of the special procedure licence, the expired licence must be returned to the issuing local authority in accordance with the instructions provided by that authority.

	<b>PARAGRAFF 3 – Y CLEIENT AC YMGYNGHORI Â CHLEIENT</b>	<b>PARAGRAPH 3 - THE CLIENT AND CLIENT CONSULTATION</b>
<b>(1)</b>	Ni chaiff deiliad y drwydded roi triniaeth arbennig i gleient os yw'n amau nad yw'r cleient yn ffit ac yn iach.	The licence holder must not undertake a special procedure on a client if they suspect the client is not fit and well.
<b>(2)</b>	Ni chaiff deiliad y drwydded roi triniaeth arbennig i unigolyn sy'n feddw, neu yr ymddengys ei fod yn feddw, pa un ai yn rhinwedd diod, cyffuriau neu unrhyw fodd arall.	The licence holder must not perform a special procedure on an individual who is or appears to be intoxicated, whether by virtue of drink, drugs or by any other means
<b>(3)</b>	<p>Rhaid i ddeiliad y drwydded gynnal ymgynghoriad â'r cleient a, phan fo deiliad y drwydded yn ystyried ei bod yn briodol, â rhiant neu warcheidwad cyfreithiol y cleient, cyn rhoi'r driniaeth arbennig. Rhaid i'r ymgynghoriad hwn fod ar ffurf ffurflen ysgrifenedig ar gyfer ymgynghori â chleientiaid a rhaid i'r ffurflen honno gynnwys y canlynol—</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Enw llawn y cleient,</li> <li>Datganiad sy'n cadarnhau bod deiliad y drwydded wedi gwirio oedran y cleient,</li> <li>Manylion cyswllt y cleient,</li> <li>Esboniad llawn o'r broses, y risgiau a'r gwrtharwyddion sy'n gysylltiedig â'r driniaeth arbennig,</li> <li>Esboniad o effeithiau cymdeithasol triniaeth arbennig a roddir ar wyneb neu wddf y cleient (os yw'n gymwys),</li> <li>Hanes meddygol perthnasol y cleient, gan gynnwys cyflyrau iechyd arwyddocaol neu berthnasol fel clefyd y galon, epilepsi, diabetes, cyflyrau sy'n peryglu imiwneidd, alergeddau, beichiogrwydd a manylion meddyginiaeth ragnodedig gan gynnwys gwrthgeulyddion,</li> <li>Cofnod a yw cleient wedi doddi anesthetig argroenol arno ei hun cyn y driniaeth arbennig (ac, os felly, gadarnhad bod deiliad y drwydded wedi ei fodloni bod yr anesthetig argroenol wedi ei gymeradwyo a'i awdurdodi gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd<sup>(1)</sup>), ac</li> <li>Esboniad o'r cyngor ôl-ofal ar gyfer y driniaeth arbennig a roddir.</li> </ol> <p><sup>(1)</sup><i>Mae'r Asiantaeth Rheoleiddio eddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd yn un o siantaethau Gweithredol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.</i></p>	<p>The licence holder must undertake a consultation with the client and, where the licence holder considers it appropriate, with the parent or legal guardian of the client, before performing the special procedure. This consultation must be by way of a written client consultation form which must include the following—</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Full name of client,</li> <li>A statement confirming that the licence holder has verified the client's age,</li> <li>Contact details of the client,</li> <li>A full explanation of the process, risks and contraindications of the special procedure,</li> <li>An explanation of the social impacts of a special procedure performed on the client's face or neck (if applicable),</li> <li>A relevant medical history of the client, including significant or relevant health conditions such as heart disease, epilepsy, diabetes, conditions that compromise immunity, allergies, pregnancy and details of prescribed medication including anticoagulants,</li> <li>A record of whether a client has applied a topical anaesthetic to themselves prior to the special procedure (and if so, confirmation that the licence holder is satisfied the topical anaesthetic is approved and authorised by the Medicines and Healthcare Products Regulatory Agency<sup>(1)</sup>), and</li> <li>An explanation of the aftercare advice for the special procedure being performed.</li> </ol> <p><sup>(1)</sup><i>The Medicines and Healthcare Products regulatory Agency is an Executive Agency of the Department of Health and Social Care.</i></p>
<b>(4)</b>	Rhaid i'r ffurflen ymgynghori â chleientiaid sydd wedi ei llenwi gael ei llofnodi gan ddeiliad y drwydded a'i chydlofnodi gan y cleient neu, pan fo deiliad y drwydded yn ystyried ei bod yn briodol, gan riant neu warcheidwad cyfreithiol y cleient.	The completed client consultation form must be signed by the licence holder and countersigned by the client, or where the licence holder considers it appropriate, the parent or legal guardian of the client.
<b>(5)</b>	Pan nodir unrhyw wrtharwyddion yn ystod yr ymgynghoriad â chleient, ni chaiff deiliad y drwydded roi'r driniaeth arbennig oni bai bod deiliad y drwydded wedi ei fodloni bod modd rhoi'r driniaeth arbennig yn ddiogel o hyd. Os oes gan ddeiliad y drwydded unrhyw bryderon ynghylch iechyd y cleient, ni chaiff deiliad y drwydded roi'r driniaeth arbennig nes ei fod	Where any contraindications are identified during the client consultation, the licence holder must not perform the special procedure unless the licence holder is satisfied that the special procedure can still be performed safely. If the licence holder has any concerns regarding the health of the client, the licence holder must not perform the special procedure until

	wedi cael cyngor meddygol neu gymeradwyaeth gan ymarferydd cyffredinol neu feddyg ymgynghorol y cleient. Rhaid cynnwys copi o'r wybodaeth hon yng nghofnodion ysgrifenedig deiliad y drwydded mewn perthynas â'r cleient.	they are in receipt of medical advice or approval from the client's GP or medical consultant. A copy of this information must be included in the licence holder's written records in relation to the client.
(6)	Cyn ac ar ôl rhoi'r driniaeth arbennig, rhaid i ddeiliad y drwydded roi cyfle i'r cleient neu, pan fo deiliad y drwydded yn ystyried ei bod yn briodol, i riant neu warcheidwad cyfreithiol y cleient, i ofyn unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r driniaeth arbennig a'r cyngor ôl-ofal.	Before and after the special procedure is performed the licence holder must give the client or, where the licence holder considers it appropriate, the parent or legal guardian of the client, the opportunity to ask any questions relating to the special procedure and the aftercare advice.
(7)	Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod cyngor ôl-ofal yn cael ei ddarparu i'r cleient neu, pan fo deiliad y drwydded yn ystyried ei bod yn briodol, i riant neu warcheidwad cyfreithiol y cleient. Rhaid defnyddio iaith glir wrth ddarparu'r cyngor hwn a rhaid iddo fod mewn fformat hawdd ei ddeall. Rhaid ei roi ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r cleient neu, pan fo deiliad y drwydded yn ystyried ei bod yn briodol, i riant neu warcheidwad cyfreithiol y cleient, a rhaid iddo gynnwys manylion cyswllt deiliad y drwydded a roddodd y driniaeth arbennig. Rhaid cynnwys copi o'r cyngor yng nghofnodion ysgrifenedig deiliad y drwydded mewn perthynas â'r cleient.	The licence holder must ensure that aftercare advice is provided to the client or, where the licence holder considers it appropriate, to the parent or legal guardian of the client. This advice must be provided using plain language and in an easy to understand format. It must be given verbally and in written form to the client, or where the licence holder considers it appropriate, to the parent or legal guardian of the client, and must include the contact details of the licence holder who performed the special procedure. A copy of the advice must be included in the licence holder's written records in relation to the client.
	<b>PARAGRAFF 4 – CADW COFNODION</b>	<b>PARAGRAPH 4 – RECORD KEEPING</b>
(1)	Rhaid i ddeiliad y drwydded ddal gafael ar gofnodion ysgrifenedig mewn perthynas â'r cleient am 3 blynedd gan ddechrau â'r diwrnod y rhoddir y driniaeth arbennig. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys copi o'r ffurflen ymgynghori â chleientiaid wedi ei llenwi a'i llofnodi.	The licence holder must retain written records in relation to the client for 3 years beginning with the day on which the special procedure is performed. These records must include a copy of the completed and signed client consultation form.
(2)	Rhaid i ddeiliad y drwydded gadw a chynnal cofrestr o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â rhoi triniaethau arbennig gan ddeiliad y drwydded. Rhaid i'r gofrestr hon gynnwys y canlynol—  a) Dyddiad y digwyddiad, b) Manylion y digwyddiad, c) Enw a manylion cyswllt y cleient neu berson arall (a all gynnwys deiliad y drwydded) a roddodd wybod am y digwyddiad, a d) Unrhyw gamau adfer a gymerwyd gan ddeiliad y drwydded i atal hyn rhag digwydd eto.	The licence holder must keep and maintain a register of incidents associated with the performance of special procedures by the licence holder. This register must include—  a) The date of the incident, b) Details of the incident, c) The name and contact details of the client or other person (which can include the licence holder) who raised the incident, and d) Any remedial actions taken by the licence holder to prevent a recurrence.
(3)	Rhaid i ddeiliad y drwydded gofrestru'r digwyddiad a chymryd unrhyw gamau adfer o fewn cyfnod resymol.	The licence holder must register the incident and take any remedial actions within a reasonable period.
(4)	Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod ganddo sicrwydd yswiriant drwy'r amser yn ystod cyfnod ei drwydded. Rhaid i dystiolaeth o sicrwydd yswiriant dilys fod ar gael yn rhwydd i'w harolygu gan unrhyw swyddog awdurdodedig.	The licence holder must have in place insurance cover at all times during their licence period. Evidence of valid insurance cover must be readily available for inspection by any authorised officer.
	<b>PARAGRAFF 5 – ARFERION DIOGELWCH A HYLENDID DEILIAD Y DRWYDDED</b>	<b>PARAGRAPH 5 – SAFETY AND HYGIENE PRACTICES OF THE LICENCE HOLDER</b>
(1)	Rhaid i ddeiliad y drwydded barhau i ddatblygu, diweddarau a chynnal ei wybodaeth am atal a rheoli heintiau a'i sgiliau o ran pob triniaeth arbennig y mae wedi ei drwyddedu i'w rhoi. Rhaid i ddeiliad y	The licence holder must continue to develop, update and maintain their knowledge of infection prevention and control and their skills for each special procedure that they are licensed to perform. The licence holder

	drwydded gynnal cofnod ysgrifenedig o'r modd y mae wedi bodloni'r gofyniad hwn.	must maintain a written record of how they have met this requirement.
(2)	Ni chaiff deiliad y drwydded roi triniaeth arbennig i unigolyn pan fo'r driniaeth wedi ei pheryglu, neu'n debygol o gael ei pheryglu, gan y ffaith ei fod ef ei hun yn feddw yn rhinwedd diod, cyffuriau neu unrhyw fodd arall.	The licence holder must not perform a special procedure on an individual where the performance is, or is likely to be, compromised due to their own intoxication by virtue of drink, drugs or any other means.
(3)	Ni chaiff deiliad y drwydded ysmegu, fepio, bwyta bwyd nac yfed diod yn y man gwaith triniaethau arbennig.	The licence holder must not smoke, vape, consume food or drink in the special procedures work area.
(4)	Rhaid i ddeiliad y drwydded arfer hylendid dwylo rheolaidd a thrylwyr.	The licence holder must practise regular and thorough hand hygiene.
(5)	Rhaid i ewinedd deiliad y drwydded fod yn lân, heb estyniadau ewinedd, farnais nac addurn.	The licence holder's nails must be clean and free from nail extensions, varnish and decoration.
(6)	Rhaid i ddeiliad y drwydded orchuddio unrhyw glwyfau agored, briwiau neu gornwydydd ar ran o'i gorff nad yw wedi ei gorchuddio â dresin anathraidd.	The licence holder must cover any open wounds, cuts, or boils on an exposed part of their body with an impermeable dressing.
(7)	Rhaid newid unrhyw gyfarpar diogelu personol untro, tafladwy, rhwng pob cleient neu pan fydd egwyl wrth roi'r driniaeth arbennig.	Any single use, disposable personal protective equipment must be changed in between each client or when there is a break in performing the special procedure.
(8)	Os yw'n ofynnol defnyddio rasel yng nghwrs rhoi'r driniaeth arbennig, rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau mai dim ond raseli untro tafladwy a ddefnyddir.	If a razor is required in the course of performing the special procedure, the licence holder must ensure that only single use disposable razors are used.
(9)	Rhaid i ddeiliad y drwydded gynnal asesiad gweledol o gyflwr croen y cleient lle y mae'r driniaeth arbennig i'w rhoi, a dihalogi'r croen cyn rhoi'r driniaeth arbennig.	The licence holder must carry out a visual assessment of the condition of the client's skin where the special procedure is to be performed and decontaminate the skin before performing the special procedure.
(10)	Ni chaiff deiliad y drwydded roi triniaeth arbennig ar groen nad yw'n gyflawn neu pan fo tystiolaeth o niwed, crafiad neu haint.	The licence holder must not perform a special procedure on skin that is not intact or where there is evidence of damage, abrasion or infection.
(11)	Ni chaiff deiliad y drwydded gyflenwi anesthetigau argroenol i gleient, na'u doddi arno, cyn, yn ystod nac ar ôl triniaeth arbennig.	The licence holder must not supply or apply topical anaesthetics to a client before, during or after a special procedure.
(12)	Ni chaiff deiliad y drwydded roi'r driniaeth arbennig— a) Os yw deiliad y drwydded wedi cael gwybod bod y cleient wedi doddi anesthetig argroenol arno ei hun cyn y driniaeth arbennig, nad yw wedi ei gymeradwyo na'i awdurdodi gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd, neu b) Os yw'r cleient wedi doddi anesthetig argroenol arno ei hun cyn y driniaeth arbennig ac nad yw deiliad y drwydded wedi cael digon o dystiolaeth bod yr anesthetig argroenol wedi ei gymeradwyo a'i awdurdodi gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.	The licence holder must not perform the special procedure if— a) The licence holder has been made aware that the client has applied a topical anaesthetic to themselves prior to the special procedure, which is not approved and authorised by the Medicines and Healthcare Products Regulatory Agency, or b) The client has applied a topical anaesthetic to themselves prior to the special procedure and the licence holder has not received sufficient evidence that the topical anaesthetic is approved and authorised by the Medicines and Healthcare Products Regulatory Agency.
(13)	Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod ei weithfan yn cael ei glanhau a'i diheintio'n effeithiol rhwng pob cleient pan fo halogiad gan waed neu hylifau corfforol, neu pan fo halogiad o'r fath yn debygol.	The licence holder must ensure that their workstation is effectively cleaned and disinfected in between each client where there is, or is likely to be, contamination from blood or bodily fluids.

(14)	Rhaid i bob triniaeth arbennig gael ei rhoi mewn amgylchedd preifat sy'n briodol ar gyfer y driniaeth arbennig a roddir.	All special procedures must be undertaken in conditions of privacy appropriate to the special procedure being performed.
(15)	Ni chaiff deiliad y drwydded ond caniatáu i gleient ddod ag unigolyn arall gydag ef os nad yw presenoldeb yr unigolyn arall hwnnw yn ystod y driniaeth arbennig yn peri risg uwch o haint.	The licence holder must only permit a client to be accompanied by another individual if the presence of that other individual during the special procedure does not present an increased risk of infection.
(16)	Ni chaiff deiliad y drwydded ganiatáu i anifeiliaid ddod i'r man gwaith triniaethau arbennig ac eithrio cŵn cymorth cofrestredig sy'n dod gyda chleient.	The licence holder must not allow animals into the special procedures work area other than registered assistance dogs accompanying a client.
	<b>PARAGRAFF 6 – GOSODIADAU A FFITIADAU</b>	<b>PARAGRAPH 6 – FIXTURES AND FITTINGS</b>
(1)	Mae unrhyw osodiad neu ddodrefnyn a ddefnyddir gan y cleient wrth roi'r driniaeth arbennig iddo i'w orchuddio â dalen bapur dafladwy, lliain neu gyffelyb, sydd i'w newid rhwng pob cleient pan fo halogiad gan waed neu hylifau corfforol yn debygol.	Any fixture or item of furniture used by the client during the performance of the special procedure is to be covered by a disposable paper sheet, towel, or equivalent and changed between each client where contamination from blood or bodily fluids is likely.
(2)	Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod yr holl osodiadau, ffitiadau a dodrefn sy'n gysylltiedig â'i weithfan wedi eu gwneud o ddeunydd difandwll a'u bod mewn cyflwr da i alluogi gwaith glanhau effeithiol a, phan fo halogiad gan waed neu hylifau corfforol yn debygol, waith diheintio effeithiol.	The licence holder must ensure that all fixtures, fittings and items of furniture associated with their workstation are of a non-porous material and in good order and repair to enable effective cleaning and, where contamination from blood or bodily fluids are likely, disinfection.
	<b>PARAGRAFF 7 – CYFARPAR AC OFFERYNNAU</b>	<b>PARAGRAPH 7 – EQUIPMENT AND INSTRUMENTS</b>
(1)	Rhaid i'r holl gyfarpar, offerynnau a chynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded—  a) Cael eu defnyddio a'u cynnal yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, a b) Cael eu gwasanaethu'n a'u dilysu'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, a rhaid cadw a chynnal yr holl gofnodion gwasanaethu a dilysu ar gyfer eu harolygu gan swyddog awdurdodedig.	All equipment, instruments and products used by the licence holder must be—  a) Used and maintained in accordance with the manufacturer's instructions, and a) Appropriately serviced and validated in accordance with the manufacturer's instructions, and all service and validation records must be kept and maintained for inspection by an authorised officer.
(2)	Rhaid i'r holl offerynnau a chyfarpar a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded fod wedi eu gwneud o ddeunydd difandwll y gellir ei lanhau, ei ddiheintio a, phan fo'n briodol, ei sterileiddio yn hawdd.	All instruments and equipment used by the licence holder must be of a non-porous material that can be easily cleaned, disinfected and, where appropriate, sterilised.
(3)	Rhaid cadw offerynnau a chyfarpar mewn cyflwr da i alluogi gwaith glanhau effeithiol a rhaid eu defnyddio a'u storio mewn ffordd sy'n lleihau'r risg o halogiad.	Instruments and equipment must be maintained in good order and repair to enable effective cleaning and must be used and stored in a way that minimises the risk of contamination.
(4)	Ni chaiff deiliad y drwydded byth aildefnyddio nac ailbrosesu eitemau untro.	The licence holder must never reuse or reprocess single use items.
(5)	Ni chaiff deiliad y drwydded ond defnyddio nodwyddau di-haint, untro, tafladwy.	Only sterile, single use, disposable needles may be used by the licence holder.
(6)	Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau, o ran unrhyw gyfarpar nad yw'n dafladwy, na ellir ei sterileiddio, ac sy'n debygol o ddod i gysylltiad â hylifau corfforol neu safle'r driniaeth arbennig, nad yw'n dod i gysylltiad o'r fath. Rhaid glanhau a diheintio cyfarpar o'r fath yn drylwyr ar ôl pob defnydd.	The licence holder must ensure that any equipment which is not disposable, cannot be sterilised and is likely to come into contact with bodily fluids or the site of the special procedure, is protected from such contact. Such equipment must be thoroughly cleaned and disinfected after each use.

<b>(7)</b>	Os defnyddir offerynnau nad ydynt yn rhai tafladwy wrth roi triniaeth arbennig a'u bod yn debygol o ddod i gysylltiad â hylifau corfforol neu safle'r driniaeth arbennig, ar ôl eu defnyddio rhaid i ddeiliad y drwydded lanhau a thrin yr offerynnau. Rhaid glanhau a thrin yr offerynnau â chyfarpar glanhau, diheintio a sterileiddio sy'n addas i'r diben megis glanhawyr uwchsain, baddonau offerynnau ac awtoclafau a chydau awtoclaf. Nid yw hyn yn gymwys i nodwyddau (gweler paragraff 7(5)).	If non-disposable instruments are used in the performance of a special procedure and are likely to come into contact with bodily fluids or the site of the special procedure the licence holder must after using them clean and treat the instruments. The instruments must be cleaned and treated with fit for purpose cleaning, disinfection and sterilisation equipment such as ultrasonic cleaners, instrument baths and autoclaves and autoclave pouches. This does not apply to needles (see paragraph 7(5)).
<b>(8)</b>	Rhaid sterileiddio unrhyw offeryn, unrhyw gyfarpar, unrhyw emwaith, neu unrhyw wrthrych sy'n cael ei atodi i groen neu bilen fwcaidd y cleient neu sy'n cael ei fewnblannu neu ei fewnosod yn ei groen neu ei bilen fwcaidd.	Any instrument, equipment, jewellery, or object that is attached to, implanted or inserted in, the client's skin or mucous membrane must be sterilised.
<b>(9)</b>	Rhaid sterileiddio unrhyw offeryn neu unrhyw gyfarpar a ddefnyddir i dynnu gemwaith neu wrthrych sydd wedi ei atodi i groen neu bilen fwcaidd y cleient neu sydd wedi ei fewnblannu neu ei fewnosod yn ei groen neu ei bilen fwcaidd.	Any instrument, or equipment used to remove jewellery or an object that is attached to, implanted or inserted in the client's skin or mucous membrane must be sterilised.
<b>(10)</b>	Rhaid i ddeiliad y drwydded allu cael gafael ar becyn cymorth cyntaf sydd wedi ei stocio'n addas, sydd ar gael yn rhwydd, i ddiwallu anghenion cymorth cyntaf y driniaeth arbennig a roddir.	The licence holder must have access to a suitably stocked, readily accessible first aid kit to meet the first aid needs of the special procedure performed.
<b>PARAGRAFF 8 – GWASTRAFF</b>		<b>PARAGRAPH 8 – WASTE</b>
<b>(1)</b>	Rhaid gwaredu pob offeryn miniog mewn bin offer miniog. Rhaid cadw a defnyddio'r bin offer miniog yn y man gwaith triniaethau arbennig.	All sharps must be disposed of in a sharps bin. The sharps bin must be kept and used within the special procedures work area.
<b>(2)</b>	Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod gwastraff domestig a gwastraff clinigol nad yw'n beryglus yn cael ei wahanu'n briodol a'i roi yn y bagiau lliw cywir. Rhaid i ddeiliad y drwydded wneud trefniadau ar gyfer gwaredu'r bagiau lliw hynny.	The licence holder must ensure that domestic and clinical, non-hazardous waste is appropriately segregated into the correct coloured bags. The licence holder must make arrangements for the disposal of those coloured bags.
<b>DIFFINIADAU YN YR ATODLEN HON</b>		<b>DEFINITIONS IN THIS SCHEDULE</b>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• ystyr “amodau cymeradwyo mandado” (“mandatory approval conditions”) yw'r amodau y mae tystysgrif gymeradwyo yn ddarostyngedig iddynt;</li> <li>• ystyr “bin offer miniog” (“sharps bin”) yw cynhwysydd anhyblyg, arbenigol sy'n cydymffurfio â Chod CGE 20 01 99(1) ac sydd wedi ei gynllunio i waredu'n ddiogel offer miniog sy'n gysylltiedig â rhoi triniaethau arbennig;</li> <li>• ystyr “cleient” (“client”) yw person y rhoddir triniaeth arbennig iddo;</li> <li>• mae i “cyfnod y drwydded” (“licence period”), mewn perthynas â thrwydded triniaeth arbennig, yr ystyr a roddir yn adran 59(8)(a) o Ddeddf Lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;</li> <li>• ystyr “gweithfan” (“workstation”) yw'r rhan o'r man gwaith triniaethau arbennig sy'n cynnwys y canlynol— (a) gwely, cadair neu gyffelyb, y mae cleient yn eistedd neu'n gorwedd arno neu arni i gael triniaeth arbennig a roddir gan ddeiliad trwydded,</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>• “approval certificate” (“tystysgrif gymeradwyo”) has the meaning given in section 70(1) of the Public Health (Wales) Act 2017;</li> <li>• “approved premises or vehicle” (“mangre neu gerbyd a gymeradwywyd”) means premises or a vehicle approved under section 70(1) of the Public Health (Wales) Act 2017, in respect of a special procedure, by the local authority;</li> <li>• “authorised insurer” (“yswiriwr awdurdodedig”) means, in relation to a policy of insurance, a person who may carry on in the United Kingdom the business of effecting or carrying out contracts of insurance of the sort provided under the policy of insurance;</li> <li>• “authorised officer” (“swyddog awdurdodedig”) has the meaning given in section 83 of the Public Health (Wales) Act 2017;</li> <li>• “client” (“cleient”) means a person on whom a special procedure is performed;</li> <li>• “insurance cover” (“sicrwydd yswiriant”) means a valid policy of insurance which was issued by an authorised insurer to insure the licence holder in</li> </ul>

<p>(b) cadair neu stôl y mae deiliad y drwydded yn eistedd arni i roi'r driniaeth arbennig (os yw'n gymwys), ac</p> <p>(c) arwyneb gwaith a ddefnyddir ar gyfer gosod a storio'r offerynnau a'r cynhyrchion a ddefnyddir gan ddeiliad y drwydded i roi'r driniaeth arbennig;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ystyr "man gwaith triniaethau arbennig" ("special procedures work area") yw ardal neu ystafell ddynodedig a ddefnyddir at ddiben rhoi triniaeth arbennig, ac o ran man gwaith triniaethau arbennig—       <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) rhaid iddo gynnwys o leiaf—           <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) 1 weithfan,</li> <li>(ii) 1 basn golchi dwylo,</li> <li>(iii) 1 bin gwastraff,</li> <li>(iv) 1 bin offer miniog (os yw'n gymwys), a</li> </ul> </li> <li>(b) caiff hefyd gynnwys cyfleusterau eraill a chyfarpar arall i gefnogi'r gwaith o roi'r driniaeth arbennig;</li> </ul> </li> <li>• ystyr "mangre neu gerbyd a gymeradwywyd" ("approved premises or vehicle") yw mangre neu gerbyd a gymeradwyir o dan adran 70(1) o deddf lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, mewn cysylltiad â thriniaeth arbennig, gan yr awdurdod lleol;</li> <li>• ystyr "offer miniog" ("sharps") yw gwrthrychau neu offerynnau sy'n gallu torri, crafu, pricio neu achosi anaf i'r croen ac mae'n cynnwys pob math nodwydd a rasel untro;</li> <li>• ystyr "sicrwydd yswiriant" ("insurance cover") yw polisi yswiriant dilys a ddyroddwyd gan yswiriwr awdurdodedig i yswirio deiliad y drwydded mewn cysylltiad ag atebolrwyddau, mewn cysylltiad â salwch, haint, anaf ac effeithiau andwyol eraill ar iechyd nad ydynt yn heintus (gan gynnwys adweithiau alergaidd), sy'n codi drwy roi triniaeth arbennig;</li> <li>• mae i "swyddog awdurdodedig" ("authorised officer") yr ystyr a roddir yn adran 83 o Ddeddf lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;</li> <li>• ystyr "trosedd berthnasol" ("relevant offence") yw trosedd a restrir yn adran 66(8) o Ddeddf lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;</li> <li>• mae i "tystysgrif gymeradwyo" ("approval certificate") yr ystyr a roddir yn adran 70(1) o Ddeddf lechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017;</li> <li>• ystyr "yswiriwr awdurdodedig" ("authorised insurer"), mewn perthynas â pholisi yswiriant, yw person a gaiff gynnal yn y Deyrnas Unedig y busnes o roi effaith i gontractau yswiriant, neu o gyflawni contractau yswiriant, o'r math a ddarperir o dan y polisi yswiriant.</li> </ul>	<p>respect of liabilities, in respect of illness, infection, injury and other non-infectious adverse health effects (including allergic reactions), arising from the performance of a special procedure;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• "licence period" ("cyfnod y drwydded"), in relation to a special procedure licence, has the meaning given in section 59(8)(a) of the Public Health (Wales) Act 2017;</li> <li>• "mandatory approval conditions" ("amodau cymeradwyo mandadol") means the conditions to which an approval certificate is subject to;</li> <li>• "relevant offence" ("trosedd berthnasol") means an offence listed in section 66(8) of the Public Health (Wales) Act 2017;</li> <li>• "sharps" ("offer miniog") means objects or instruments which are able to cut, graze, puncture or cause injury to the skin and includes all types of needles and single use razors;</li> <li>• "sharps bin" ("bin offer miniog") means a rigid, specialised container that complies with the EWC Code 20 01 99(1) designed to safely dispose of sharps associated with the performance of special procedures;</li> <li>• "special procedures work area" ("man gwaith triniaethau arbennig") means a designated area or room used for the purpose of performing a special procedure which—       <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) must include at least—           <ul style="list-style-type: none"> <li>(i) 1 workstation,</li> <li>(ii) 1 wash hand basin,</li> <li>(iii) 1 waste bin,</li> <li>(iv) 1 sharps bin (if applicable), and</li> </ul> </li> <li>(b) may also include other facilities and equipment to support the performance of the special procedure;</li> </ul> </li> <li>• "workstation" ("gweithfan") means the part of the special procedures work area which contains—       <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) a bed, chair or similar, on which a client sits or lies on to undergo a special procedure performed by a licence holder,</li> <li>(b) a chair or stool which the licence holder sits on to perform the special procedure (if applicable), and</li> <li>(c) a work surface that is used for the placement and storage of the instruments and products used by the licence holder to perform the special procedure.</li> </ul> </li> </ul>
--	---



	<b>AMODAU TRWYDDEDU MANDADOL: ACIWBIGO</b> <i>ATODLEN 4, RHEOLIAD 7 (4)</i>	<b>MANDATORY LICENSING CONDITIONS: ACUPUNCTURE</b> <i>SCHEDULE 4, REGULATION 7 (4)</i>
	<b>PARAGRAFF 1 - ACIWBIGO</b>	<b>PARAGRAPH 1 - ACUPUNCTURE</b>
<b>(1)</b>	Ni chaiff deiliad trwydded roi triniaeth aciwbigo ar ran bersonol o gorff cleient o dan 18 oed.  <i>*Yn yr Atodlen hon, ystyr "rhan bersonol o'r corff" yw rhan o'r corff a restrir yn adran 96(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.</i>	A licence holder must not perform acupuncture on an intimate body part of a client under the age of 18.  <i>*In this Schedule, "intimate body part" means a body part that is listed in section 96(2) of the Public Health (Wales) Act 2017.</i>
<b>(2)</b>	Rhaid i ddeiliad trwydded olchi a sychu ei ddwylo'n drylwyr yn union cyn ac ar ôl rhoi triniaeth aciwbigo i bob cleient.	A licence holder must thoroughly wash and dry their hands immediately before and after performing acupuncture on each client.
<b>(3)</b>	Rhaid i ddeiliad trwydded wisgo menyg untro sy'n ffitio'n dda pan— (a) bo'r cleient yn gwaedu neu pan fo ganddo friw agored ar ran o'i gorff nad yw wedi ei gorchuddio, (b) bo gan ddeiliad y drwydded friw agored, croen wedi torri neu haint ar y croen ar ei law, neu (c) bo deiliad y drwydded yn trin a thrafod eitemau a allai fod wedi eu halogi â gwaed neu hylifau corfforol eraill.	A licence holder must wear single use, well fitting gloves where— (a) the client is bleeding or has an open lesion on an exposed part of their body, (b) the licence holder has an open lesion, broken skin or a skin infection on their hand, or (c) the licence holder is handling items that may be contaminated with blood or other body fluids.
<b>(4)</b>	Pan ofynnir i ddeiliad y drwydded roi triniaeth aciwbigo i gleient mewn mangre neu gerbyd a ddefnyddir i unrhyw raddau gan y cleient hwnnw fel annedd, cyn rhoi'r driniaeth arbennig, rhaid i ddeiliad y drwydded— (a) cynnal a chofnodi asesiad o'r lleoliad lle y mae'r driniaeth aciwbigo i'w rhoi, gan roi sylw dyladwy i unrhyw risgiau a allai achosi niwed i iechyd dynol, (b) pan fo'r asesiad yn nodi unrhyw risg a allai achosi niwed i iechyd dynol, cymryd camau gweithredu priodol i liniaru'r niwed cyn rhoi'r driniaeth arbennig, ac (c) cynnwys copi o'r asesiad yng nghofnodion ysgrifenedig deiliad y drwydded mewn perthynas â'r cleient.	Where the licence holder is asked to perform acupuncture on a client from a premises or vehicle that is used to any extent by that client as a dwelling, before the licence holder performs the special procedure the licence holder must— (a) undertake and record an assessment of the location where acupuncture is to be performed, having due regard to any risks that can cause harm to human health, (b) where the assessment identifies any risk that could cause harm to human health, take appropriate action to mitigate the harm before performing the special procedure, and (c) include a copy of the assessment in the licence holder's written records in relation to the client.
<b>(5)</b>	Pan fo deiliad y drwydded yn rhoi triniaeth aciwbigo i gleient mewn mangre neu gerbyd a ddefnyddir i unrhyw raddau gan y cleient hwnnw fel annedd, os nodir risg o niwed i iechyd dynol wrth roi'r driniaeth arbennig, rhaid i ddeiliad y drwydded— (a) dileu'r risg o niwed cyn parhau i roi'r driniaeth arbennig, neu (b) os na ellir dileu'r risg o niwed, peidio â rhoi'r driniaeth arbennig.	Where the licence holder performs acupuncture on a client from a premises or vehicle that is used to any extent by that client as a dwelling, if a risk of harm to human health is identified during the performance of the special procedure, the licence holder must— (a) remove the risk of harm before continuing to perform the special procedure, or (b) if the risk of harm cannot be removed, cease to perform the special procedure.

	<b>AMODAU TRWYDDEDU MANDADOL: TYLLU'R CORFF</b> <i>ATODLEN 5, RHEOLIAD 7 (4)</i>	<b>MANDATORY LICENSING CONDITIONS: BODY PIERCING</b> <i>SCHEDULE 5, REGULATION 7 (4)</i>
	<b>PARAGRAFF 1 – TYLLU'R CORFF</b>	<b>PARAGRAPH 1 – BODY PIERCING</b>
<b>(1)</b>	Gwaherddir deiliad y drwydded rhag defnyddio sgalpel i dyllu'r corff.	The licence holder is prohibited from using a scalpel to perform body piercing.
<b>(2)</b>	Rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo menyg wrth roi'r driniaeth arbennig. O ran y menyg a wisgir gan ddeiliad y drwydded, rhaid iddynt fod y rhai sy'n ffitio orau, sy'n cynnig y deheurwydd gorau ac sy'n teimlo'n fwyaf cyfforddus, a rhaid iddynt gynnig rhwystr amddiffynnol da. Pan fo modd gwisgo menyg latecs, rhaid i'r menyg latecs fod yn rhai protein isel heb eu powdro. Os oes gan y cleient alergedd hysbys i latecs, rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo menyg eraill addas nad ydynt yn cynnwys latecs.	The licence holder must wear gloves when performing the special procedure. The gloves Worn by the licence holder must provide the best fit, dexterity and comfort and afford good barrier protection. Where latex gloves can be worn, the latex gloves must be low-protein and powder free. If the client has a known allergy to latex, the licence holder must wear gloves that are a suitable latex free alternative.
<b>(3)</b>	Rhaid tynnu menyg a'u gwaredu'n syth ar ôl i'r driniaeth arbennig ddod i ben. Rhaid tynnu menyg, eu gwaredu a gwisgo rhai eraill yn eu lle pan fo egwyl yn ystod y cyfnod o amser pan roddir y driniaeth arbennig.	Gloves must be removed and disposed of immediately after the special procedure is finished. Gloves must be removed, disposed of and replaced where there is a break in the period of time during which the special procedure is performed.
<b>(4)</b>	Rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo ffedog untro, dafladwy wrth roi'r driniaeth arbennig pan fo risg o halogiad gan waed neu hylifau corfforol (neu'r ddau). Rhaid tynnu'r ffedog a'i gwaredu'n syth ar ôl i'r driniaeth arbennig ddod i ben. Rhaid tynnu'r ffedog, ei gwaredu a gwisgo un arall yn ei lle pan fydd egwyl wrth roi'r driniaeth arbennig.	The licence holder must wear a single use disposable apron when performing the special procedure where there is a risk of contamination from blood or bodily fluids (or both). The apron must be removed and disposed of immediately after the special procedure is finished. The apron must be removed, disposed of and replaced when there is a break in performing the special procedure.
<b>(5)</b>	Rhaid i'r holl emwaith, gwrthrychau neu offerynnau a all ddod i gysylltiad â chroen neu bilen fwcaidd wrth dyllu'r corff, neu sy'n dod i gysylltiad agos â chroen wedi ei dyllu neu bilen fwcaidd wedi ei thyllu ar y cleient, gael eu prynu gan gyflenwyr sydd ag enw da a rhaid iddynt fod yn rhai untro a bod wedi eu sterileiddio.	All jewellery, objects or instruments which may come into contact with skin or mucous membrane when piercing is undertaken, or are in close contact with the client's pierced skin or mucous membrane, must be purchased from reputable suppliers and must be single-use and sterilised.
<b>(6)</b>	O ran unrhyw nodwydd, canwla, pwnsh biopsi, tapr, pin neu roden gysylltu, tiwb derbyn nodwydd, blanc nodwydd, neu unrhyw offeryn arall a ddefnyddir at ddiben gwneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd y cleient gyda golwg ar alluogi i emwaith neu unrhyw wrthrych gael ei atodi i gorff y cleient, ei fewnblannu yng nghorff y cleient neu ei dynnu o gorff y cleient, rhaid iddynt fod wedi eu prynu gan gyflenwr ag enw da, fod yn rhai untro a bod wedi eu sterileiddio.	Any needle, cannula, biopsy punch, taper, connection pin or rod, needle receiving tube, needle blank, or any other instrument used for the purpose of perforating the client's skin or mucous membrane with the view to enabling jewellery or any object to be attached to, implanted in or removed from the client's body must be purchased from a reputable supplier, be single use and be sterilised.
<b>(7)</b>	Rhaid i'r holl emwaith neu'r holl wrthrychau a ddefnyddir ar gyfer tyllu'r corff fod o radd addas, gan gynnwys dur gwrthstaen llawfeddygol, aur 9, 14 neu 18 carat, niobiwm, titaniwm, platinwm, neu blastig trwchus â mandylledd isel.	All jewellery or objects used for the body piercing must be of a suitable grade, including surgical stainless steel, 9, 14 or 18 carat gold, niobium, titanium, platinum, or dense low porosity plastic.
<b>(8)</b>	Os oes angen marcio'r rhan o'r croen sydd i'w thyllu, rhaid defnyddio pin ysgrifennu dyfrsail untro neu farcwyr untro. Rhaid gwaredu'r teclyn neu'r pin ysgrifennu yn syth ar ôl ei ddefnyddio.	If the area to be pierced requires marking, a single use water-based marker pen or single use markers must be used. The implement or pen must be disposed of immediately after use.

(9)	<p>Os yw deiliad y drwydded yn defnyddio system cetris ar gyfer tyllu'r corff—</p> <p>(a) rhaid iddo ddefnyddio cetrisen ddi-haint,</p> <p>(b) rhaid iddo ddefnyddio gemwaith neu wrthrychau wedi eu sterileiddio a gyflenwir mewn pecynwaith wedi ei selio sy'n dangos ar ba ran o'r corff y bwriedir iddynt gael eu defnyddio,</p> <p>(c) rhaid iddo gynnal cofnodion i gadarnhau bod y getrisen ddi-haint a'r gemwaith neu'r gwrthrych sydd wedi eu sterileiddio yn gyflawn,</p> <p>(d) mewn perthynas â thyllu clustiau a'r trwyn, rhaid iddo ddefnyddio cetris sydd wedi eu selio, cyn y dyddiad dod i ben, a rhaid iddynt fod mewn cyflwr da cyn cael eu defnyddio,</p> <p>(e) rhaid iddo daflu unrhyw getris o becynnau sydd wedi eu difrodi neu sy'n cynnwys pothelli, ac ni chaiff ddefnyddio'r rhain,</p> <p>(f) ni chaiff ail-lwytho cetrisen dafladwy a'i defnyddio ar gyfer gwneud amryw o dyllau, pa un ai ar yr un cleient ai peidio,</p> <p>(g) rhaid iddo sicrhau bod offeryn tyllu y gellir ei aildefnyddio yn cael ei lanhau ac yna ei ddiheintio a'i sterileiddio cyn ac ar ôl pob defnydd, ac</p> <p>(h) ni chaiff ddefnyddio offerynnau tyllu y gellir eu haildefnyddio ac eithrio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr (gan gynnwys y cyfarwyddiadau hynny ynghylch sut i lwytho a dadlwytho'r cetris).</p>	<p>If using a cartridge system for body piercing, the licence holder—</p> <p>(a) must use a sterile cartridge,</p> <p>(b) must use sterilised jewellery or objects supplied in sealed packaging which indicates the part of the body for which it is intended,</p> <p>(c) must maintain records to validate the integrity of the sterile cartridge and sterilised jewellery or object,</p> <p>(d) in relation to ear and nose piercing, must use cartridges that are sealed, within the expiry date and in good condition prior to use,</p> <p>(e) must discard and must not use any cartridges from damaged or blistered packs,</p> <p>(f) must not reload a disposable cartridge and use for multiple piercings, whether or not on the same client,</p> <p>(g) must ensure that a re-usable piercing instrument is cleaned and subsequently disinfected and sterilised before and after each use, and</p> <p>(h) must not use re-usable piercing instruments otherwise than in accordance with the manufacturer's instructions (including those instructions as to the loading and unloading of the cartridge).</p>
-----	---	---

	<b>AMODAU TRWYDDEDU MANDADOL: ELECTROLYSIS ATODLEN 6, RHEOLIAD 7 (4)</b>	<b>MANDATORY LICENSING CONDITIONS: ELECTROLYSIS SCHEDULE 6, REGULATION 7 (4)</b>
	<b>PARAGRAFF 1 – ELECTROLYSIS</b>	<b>PARAGRAPH 1 – ELECTROLYSIS</b>
(1)	<p>Ni chaiff deiliad trwydded roi triniaeth electrolysis ar ran bersonol o gorff cleient o dan 18 oed.</p> <p><i>*Yn yr Atodlen hon, ystyr "rhan bersonol o'r corff" yw rhan o'r corff a restrir yn adran 96(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.</i></p>	<p>A licence holder must not perform electrolysis on an intimate body part of a client under the age of 18.</p> <p><i>*In this Schedule, "intimate body part" means a body part that is listed in section 96(2) of the Public Health (Wales) Act 2017.</i></p>
(2)	<p>Rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo menyg wrth roi'r driniaeth arbennig. O ran y menyg a wisgir gan ddeiliad y drwydded, rhaid iddynt fod y rhai sy'n ffitio orau, sy'n cynnig y deheurwydd gorau ac sy'n teimlo'n fwyaf cyfforddus, a rhaid iddynt gynnig rhwystr amddiffynnol da. Pan fo modd gwisgo menyg latecs, rhaid i'r menyg latecs fod yn rhai protein isel heb eu powdro. Os oes gan y cleient alergedd hysbys i latecs, rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo menyg eraill addas nad ydynt yn cynnwys latecs.</p>	<p>The licence holder must wear gloves when performing the special procedure. The gloves worn by the licence holder must provide the best fit, dexterity and comfort and afford good barrier protection. Where latex gloves can be worn, the latex gloves must be low-protein and powder free. If the client has a known allergy to latex, the licence holder must wear gloves that are a suitable latex free alternative.</p>
(3)	<p>Rhaid tynnu menyg a'u gwaredu'n syth ar ôl i'r driniaeth arbennig ddod i ben. Rhaid tynnu menyg, eu gwaredu a gwisgo rhai eraill yn eu lle pan fo egwyl yn ystod y cyfnod o amser pan roddir y driniaeth arbennig.</p>	<p>Gloves must be removed and disposed of immediately after the special procedure is finished. Gloves must be removed, disposed of and replaced where there is a break in the period of time during which the special procedure is performed.</p>

	<b>AMODAU TRWYDDEDU MANDADOL: TATŴIO</b> <i>ATODLEN 7, RHEOLIAD 7 (4)</i>	<b>MANDATORY LICENSING CONDITIONS: TATTOOING</b> <i>SCHEDULE 7, REGULATION 7 (4)</i>
	<b>PARAGRAFF 1 – TATŴIO</b>	<b>PARAGRAPH 1 – TATTOOING</b>
(1)	Gwaherddir deiliad y drwydded rhag rhoi inc neu bigment ym mhelen llygad unrhyw unigolyn.	The licence holder is prohibited from inserting ink or pigment into the eyeball of any individual.
(2)	Rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo menyg wrth roi'r driniaeth arbennig. O ran y menyg a wisgir gan ddeiliad y drwydded, rhaid iddynt fod y rhai sy'n ffitio orau, sy'n cynnig y dehurwydd gorau ac sy'n teimlo'n fwyaf cyfforddus, a rhaid iddynt gynnig rhwystr amddiffynnol da. Pan fo modd gwisgo menyg latecs, rhaid i'r menyg latecs fod yn rhai protein isel heb eu powdro. Os oes gan y cleient alergedd hysbys i latecs, rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo menyg eraill addas nad ydynt yn cynnwys latecs.	The licence holder must wear gloves when performing the special procedure. The gloves worn by the licence holder must provide the best fit, dexterity and comfort and afford good barrier protection. Where latex gloves can be worn, the latex gloves must be low-protein and powder free. If the client has a known allergy to latex, the licence holder must wear gloves that are a suitable latex free alternative.
(3)	Rhaid tynnu menyg a'u gwaredu'n syth ar ôl i'r driniaeth arbennig ddod i ben. Rhaid tynnu menyg, eu gwaredu a gwisgo rhai eraill yn eu lle pan fo egwyl yn ystod y cyfnod o amser pan roddir y driniaeth arbennig.	Gloves must be removed and disposed of immediately after the special procedure is finished. Gloves must be removed, disposed of and replaced where there is a break in the period of time during which the special procedure is performed.
(4)	Rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo ffedog untro, dafladwy wrth roi'r driniaeth arbennig. Rhaid tynnu'r ffedog a'i gwaredu'n syth ar ôl i'r driniaeth arbennig ddod i ben. Rhaid tynnu'r ffedog, ei gwaredu a gwisgo un arall yn ei lle pan fydd egwyl wrth roi'r driniaeth arbennig.	The licence holder must wear a single use disposable apron when performing the special procedure. The apron must be removed and disposed of immediately after the special procedure is finished. The apron must be removed, disposed of and replaced when there is a break in performing the special procedure.
(5)	Rhaid i'r holl gynhyrchion a ddefnyddir yng nghwrs rhoi'r driniaeth arbennig (er enghraifft, jeli petroliwm, jel iro a stensiliau tatŵio) fod yn rhai untro neu rhaid eu rhoi mewn daliedyddion glân, untro gan ddefnyddio offerynnau glân, untro.	All products used in the course of performing the special procedure (for example, petroleum jelly, lubricating gel and tattoo stencils) must be single use or dispensed using a clean, single use instrument to a clean, single use receptacle.
(6)	Rhaid labelu cynhyrchion a ddefnyddir yng nghwrs rhoi'r driniaeth arbennig gyda'r dyddiad y cawsant eu hagor a'u gwaredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.	Products used in the course of performing the special procedure must be labelled with the date of opening and disposed of in accordance with the manufacturer's instructions.
(7)	Rhaid i inciau a phigmentau fod wedi eu sterileiddio. Rhaid i unrhyw ddeunydd neu sylwedd a ychwanegir at yr inc neu'r pigment fod wedi ei sterileiddio hefyd.	Inks and pigments must be sterilised. Any material or substance added to the ink or pigment must also be sterilised.
(8)	Rhaid rhoi inciau a phigmentau a ddefnyddir yng nghwrs rhoi'r driniaeth arbennig mewn daliedyddion glân, untro neu rhaid iddynt fod wedi eu pacio ymlaen llaw mewn ffiolau untro, a rhaid eu defnyddio a'u gwaredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.	Inks and pigments used in the course of performing the special procedure must be dispensed into clean, single-use receptacles or pre-packed in single use vials and must be used and disposed of in accordance with the manufacturer's instructions.
(9)	Dim ond dŵr di-haint y caniateir ei ddefnyddio i wanhau inciau a phigmentau ac i rinsio offerynnau a chyfarpar wrth roi triniaeth tatŵio.	Only sterile water may be used to dilute inks and pigments and to rinse instruments and equipment while tattooing is being performed.
(10)	Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod cyfarpar sydd â cheudodau gwag ynddo, cyfarpar sydd wedi ei lapio neu ei amgáu mewn cydau, neu lwythi mân-dyllog, yn cael eu sterileiddio gan ddefnyddio awtoclaf gwactod priodol y bernir ei fod yn briodol at y diben hwnnw gan y gwneuthurwr.	The licence holder must ensure that equipment with hollow cavities, equipment wrapped or enclosed in pouches, or porous loads are sterilised using an appropriate vacuum autoclave that is deemed appropriate for that purpose by the manufacturer.
(11)	Rhaid cofnodi brand, cod lliw a chod swp pob inc neu bigment a ddefnyddir ar gleient yng nghofnodion ysgrifenedig deiliad y drwydded mewn perthynas â'r cleient ar yr adeg y rhoddir y driniaeth arbennig.	The brand, colour code and batch code of each ink or pigment used on a client must be recorded in the licence holder's written records in relation to the client at the time the special procedure is being performed.